



Dyddiad cyhoeddi: 25 Mehefin 2020

Contract Dosbarth 175

Diolch am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 24 Mehefin 2020. Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

1. Wnaeth Alstom ddatgelu i Trafnidiaeth Cymru dan yr Holiadur Cyn-cymhwys ar gyfer contract y 'trenau Dosbarth 175'.

(<https://news.tfwrail.wales/news/major-gbp-40-million-fleet-refresh-begins-at-transport-for-wales>)

- (a) unrhyw euogfarnau perthnasol am lygredigaeth, twyll neu droseddau eraill a restrir yn Adran 57 o'r Rheoliadau Contract Cyhoeddus
- (b) unrhyw ymchwiliadau y mae'n eu hwynebu am unrhyw droseddau a restrir yn adran 57 y Rheoliadau Contract Cyhoeddus;
- (c) unrhyw gamymddwyn proffesiynol difrifol y mae wedi'i gael yn euog ohono.

2. Pa gamau gymeroch chi i ddilysu unrhyw wybodaeth a ddarparwyd i chi mewn perthynas â'r atebion a roddwyd gan Alstom o ran y cwestiwn Holiadur uchod.
3. Wnaethoch chi ei gwneud yn ofynnol i Alstom ddatgelu a oedd wedi hunanlanhau yn unol ag Adran 57 (13 ff) y Rheoliadau Contract Cyhoeddus er mwyn bod yn gymwys i gynnig?
4. Os gwnaethoch chi ei gwneud yn ofynnol i Alstom wneud datgeliad mewn perthynas â chwestiwn 3, pa dystiolaeth wnaethoch chi ofyn i Alstom amdani i ddilysu hyn.

Cynhaliwyd holiaduron cyn-cymhwys ac unrhyw ddatgeliadau perthnasol eraill ar gyfer darpariaeth cerbydau rheilffyrdd i fod yn rhan o fflyd Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru fel rhan o'r broses gaffael. Rydym yn ystyried bod cynnwys a dadansoddiad yr holiaduron cyn-cymhwys a'r datgeliadau hyn yn fasnachol sensitif ac yn wybodaeth briodoldeb, a byddai eu datgelu'n debygol o niweidio buddiannau masnachol Alstom.

Mae'r esemptiadau canlynol i'r hawl mynediad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) wedi'u cymhwysu: Adran 43(1) ac Adran 43(2) (Niwed i Fuddiannau Masnachol). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n debygol o effeithio ar fantais gystadleuol Alstom. Er ein bod yn cydnabod y bydd llawer o ddiddordeb yn y diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd, rydym yn ystyried y byddai hyn yn niweidio ein gallu i ymgysylltu â chyflenwyr yn y dyfodol.

Mae defnyddio'r esemptiad hwn yn destun asesiad o'r budd cyhoeddus mewn perthynas â datgelu'r wybodaeth dan sylw. Yn yr achos hwn, mae'r niwed posibl o weithrediad effeithiol y broses gynnig yn ystyriaeth bwysicach na'r ffactorau o blaid datgelu, fel y budd cyhoeddus cyffredinol mewn tryloywder a didwylledd. Felly, mae'n debyg y byddai datgelu yn niweidio gallu Gwasanaeth Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i sicrhau'r gwerth gorau o'i brosesau



caffael, gan arwain at gynnydd mewn costau i'r cyhoedd, naill ai drwy drethi neu gynnydd mewn prisiau, a gallu Alstom i gystadlu'n deg gyda chwmnïau eraill. Nifer cyfyngedig o gwmnïau sy'n gallu cynnig am gontractau o'r fath ac mae Alstom yn debygol o fod yn cystadlu am gontractau tebyg yn y dyfodol. Yn yr achos hwn rydym yn ystyried mai'r budd cyhoeddus fyddai sicrhau'r gwerth gorau o'r farchnad, tra'n parchu rhwymedigaethau ymhlyg a phenodol cyfrinachedd sy'n cael eu creu drwy'r broses gaffael.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod yr angen i awdurdodau cyhoeddus a'i gontractwyr fod yn agored a thryloyw, ond yn yr achos hwn gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o niweidio gallu TrC i sicrhau'r gwerth gorau o'r broses gaffael, a gallu Alstom i gystadlu â chwmnïau eraill, ystyrir bod y budd cyhoeddus o blaid defnyddio'r esemptiad.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru